



PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF CABINET

Cofnodion o gyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd Dydd Iau, 28 Ionawr 2021 am 10.30 am

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol - Cabinet Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cyngorydd A Morgan (Cadeirydd)

Y Cyngorydd M Webber Y Cyngorydd R Bevan
Y Cyngorydd A Crimmings Y Cyngorydd M Norris
Y Cyngorydd J Rosser Y Cyngorydd R Lewis
Y Cyngorydd C Leyshon Y Cyngorydd G Hopkins

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr C Bradshaw, Prif Weithredwr
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr N Wheeler, Cyfarwyddwr Cyfadran – Ffyniant, Datblygu, a Gwasanaethau Rheng-flaen
Mr P Mee, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr R Evans, Cyfarwyddwr - Materion Adnoddau Dynol
Mr D Powell, Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor
Mr S Gale, Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol
Mr B Davies, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol
Ms L Davies, Cyfarwyddwr – Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned
Ms G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant
Mr P Griffiths, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Cyllid a Gwella
Ms A Richards, Cyfarwyddwr Dros Dro – Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid

Y Cyngorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cyngorydd S Bradwick
Y Cyngorydd H Fychan
Y Cyngorydd J Harries
Y Cyngorydd S Morgans

51 DATGAN BUDDIANT

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, cafodd y datganiadau o fuddiant canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda:

- Cyhoeddodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol fuddiant personol yn Eitem 4 yr agenda, Diweddariad Blynyddol Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2020: 'Fi yw Cadeirydd y Llywodraethwyr yn YGG Abercynon, y

- cyfeirir ato yn yr adroddiad',
- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J Harries fuddiant personol yn Eitem 5 yr agenda, Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif - Cynigion i Wella Darpariaeth Addysg ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn-Y-Forwyn: 'Rwy'n gyn-ddisgybl yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn-Y-Forwyn, mae gen i aelodau o'r teulu sy'n ddisgyblion yn yr ysgol, ac rydw i'n Aelod o'r Corff Llywodraethu.';
- Cyhoeddodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol S Morgans fuddiant personol yn Eitem 5 yr agenda, Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif - Cynigion i Wella Darpariaeth Addysg ar gyfer Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn-Y-Forwyn: 'Mae gen i berthynas agos a buddiant personol yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn-Y-Forwyn.'

52 Cofnodion

PENDERFYNODD y Cabinet gymeradwyo cofnodion y cyfarfod, a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2020, yn rhai cywir.

53 Argymhellion Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu argymhellion Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd, a wnaeth gyfarfod ar 16 Tachwedd 2020, er mwyn trafod adroddiad ar Asedau Natur, Cynlluniau Datblygu Strategol a Lleol a Materion Cynhyrchu Ynni.

Tynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sylw'r Aelodau at Adran 4 yr adroddiad, a oedd yn manylu ar y sylwadau a'r argymhellion dilynol a wnaed gan y Grŵp Llywio mewn perthynas â phob un o'r adroddiadau a drafodwyd.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol a Chadeirydd Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd yn falch o nodi bod y Grŵp Llywio wedi parhau i weithio'n dda, gan gydnabod mai newid yn yr hinsawdd oedd her yr oes. Tynnodd yr Aelod o'r Cabinet sylw at argymhelliad allweddol y Grŵp, sef i'r Cyngor ystyried y tir mwyaf addas ar gyfer adfer mawnog a dal a thrin dŵr a sut, ynghyd â defnyddio mannau gwyrdd a phwyntiau gwefru cerbydau trydanol, y mae modd i hyn gysylltu â Chynllun Datblygu Lleol y Cyngor.

Aeth yr Aelod o'r Cabinet ymlaen i siarad am Gynhyrchu Ynni a Phrosiect Ffynnon Taf, sydd ar y gweill ar hyn o bryd. Ar ôl ei gwblhau, bydd yn defnyddio ynni geo-thermol/tanddaearol adnewyddadwy gan ddefnyddio dŵr o'r Afon Taf. Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet i Gyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor am y gwaith a wnaed i ddatblygu prosiectau o'r fath ac edrychodd ymlaen at gael diweddariadau pellach yn y dyfodol.

Adleisiodd yr Arweinydd ddiolch yr Aelod o'r Cabinet i'r Cyfarwyddwr a nododd fod lluo o waith wedi'i wneud dros nifer o flynyddoedd o ran cynhyrchu ynni, yn ogystal â gwaith Grŵp Llywio'r Cabinet ar Faterion yr Hinsawdd.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad a drafodwyd gan Grŵp Llywio'r Cabinet ar faterion yr Hinsawdd ar 16 Tachwedd 2020 (Atodiad 1 yr adroddiad);
2. Nodi adborth a thrafodaeth y Grŵp Llywio;

3. Nodi argymhelliad Grŵp Llywio'r Cabinet mewn perthynas â'r adroddiad Asedau Natur:

- I. Bod Cyfarwyddwr Materion Eiddo'r Cyngor ac Ecolegydd y Cyngor yn cynnal adolygiad o'r tir sy'n eiddo cyhoeddus, i nodi'r safleoedd hynny sydd fwyaf addas ar gyfer adfer mawnog a'r goblygiadau cost; gydag adroddiad wedi'i gyflwyno yn ôl i'r Grŵp Llywio ei drafod.

54 Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2020

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant, ddiweddariad ar y camau sydd wedi'u hamlinellu yng Nghynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ar gyfer y cyfnod rhwng 2017 a 2020, a gafodd ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru ar 15 Mawrth 2018. Nodwyd y disgwyliad mai'r diweddariad blynyddol blaenorol ar gyfer 2019 i 2020 fyddai'r un olaf ar gyfer y cynllun yma. Serch hynny, oherwydd pandemig Covid-19, mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yma wedi'i ymestyn i gwmpasu'r cyfnod rhwng 2020 a 2021.

Clywodd yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru wedi newid rhai o'r rheoliadau sy'n ymwneud â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, gan gynnwys Rheoliadau Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 a Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygiad) (Coronafeirws) 2020. Amlygwyd y ddau newid allweddol yma mewn perthynas â'r rheoliadau i'r Aelodau:

- Ymestyn hyd cylch gweithredu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg o'i dair blynedd gyfredol i ddeng mlynedd (2022 i 2032);
- Disodli'r ddyletswydd gyfredol sydd ar Awdurdodau Lleol i gynllunio darpariaeth eu haddysg gyfrwng Gymraeg yn seiliedig ar alw ar yr amod bod Awdurdodau Lleol yn cyflawni targedau sydd wedi'u gosod gan LIC. Nod y targedau yma yw cynyddu canran y disgyblion sydd yn eu blwyddyn gyntaf o addysg gyfrwng Gymraeg dros gyfnod y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yma.

Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw'r Aelodau at y tabl yn Adran 5.2 yr adroddiad, a oedd yn amlinellu cyfanswm canran y dysgwyr statudol oed ysgol sy'n cyrchu eu dysgu trwy Ysgolion Cynradd, Canol ac Uwchradd cyfrwng Cymraeg, a nododd mai CBSRhCT oedd â'r ganran uchaf o blith y pum ardal Awdurdod Lleol o dan Gonsortiw Canolbarth y De am y tair blynedd academaidd flaenorol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr fod gan y mwyafrif o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol RhCT leoedd dros ben ar hyn o bryd, 28.1% mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Aeth y Cyfarwyddwr ymlaen i siarad am y pwysau capasiti bach yn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, gan nodi bod y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r materion wedi'u hamlinellu yn Adran 5.7 yr adroddiad. Enghraifft o hyn oedd ymrwymiad y Cyngor i fuddsoddi £3.69 miliwn yn Ysgol Gynradd Gymraeg Aberdâr er mwyn darparu 48 lle arall. Yn ogystal, mae CBSRhCT wedi buddsoddi \$ miliwn arall i gynyddu ansawdd ac argaeledd darpariaeth Gymraeg yn y blynyddoedd cynnar ar safleoedd ysgolion cynradd.

Diolchodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant i'r Cyfarwyddwr am yr Adroddiad Blynyddol, a heriwyd gan y Pwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc ar 27 Ionawr 2021. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn falch o nodi'r nifer fawr o fuddsoddiadau a wnaed gan y Cyngor ac yn

benodol, yr ymrwymiad a wnaed i ddarpariaeth gyfrwng Cymraeg y n y blynyddoedd cynnar, sy'n galluogi plant i symud ymlaen i ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg.

Roedd yr Aelod o'r Cabinet o'r farn bod yr adroddiad yn dangos yn glir ymrwymiad yr Awdurdod Lleol i gefnogi'r camau a amlinellir o fewn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac i gyfrannu at weledigaeth Llywodraeth Cymru o sicrhau bod miliwn o bobl yng Nghymru yn siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion a'r Gymraeg yr adroddiad a phwysleisiodd bwysigrwydd Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg fel dogfen strategol i'r Awdurdod Lleol a'r gymuned fel ei gilydd. Soniodd yr Aelod o'r Cabinet am y cyhoeddiad diweddar i ohirio'r Eisteddfod Genedlaethol, yng ngoleuni effeithiau parhaus pandemig byd-eang COVID-19, a'r cyfyngiadau sydd ar waith o ran cynnal achlysuron cyhoeddus ac ymgynnull yn gymdeithasol. Roedd yr Aelod o'r Cabinet yn edrych ymlaen at groesawu'r achlysur mawreddog i RhCT yn 2024.

Ailadroddodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol y sylwadau blaenorol ac roedd yn falch o nodi'r cyllid sylweddol ar gyfer cynyddu capasiti ysgolion cyfrwng Cymraeg, yn ychwanegol at y miliynau a fuddsoddiwyd eisoes yn Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif.

Gyda chaniatâd y Cadeirydd, siaradodd Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol H Fychan a Ms K Hadley (Llefarydd Cyhoeddus) ar yr eitem hon.

Aeth yr Arweinydd ati i gydnabod y sylwadau a wnaed a'r pryderon a godwyd am effaith y feirws ar blant a theuluoedd nad ydynt yn siarad Cymraeg. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'n trafod cefnogaeth er mwyn helpu disgyblion i ddal i fyny â'r hyn a gollwyd gyda Gweinidogion yng nghyfarfod Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn ddiweddarach y diwrnod hwnnw. Roedd yn gobeithio, yn sgil pennu'r gyllideb, y byddai cyllid ychwanegol yn cael ei neilltuo ar gyfer ysgolion, gan gynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg.

O ran pwynt a godwyd am yr angen i'r Cyngor ymgysylltu ag unigolion ynghylch Rhaglen Ysgolion yr 21^{ain} Ganrif, cadarnhaodd yr Arweinydd ei fod ef a'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant wedi ymrwymo i gwrdd â rhieni i drafod cynlluniau yn y dyfodol er mwyn tawelu unrhyw bryderon.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad; a
2. Trafod a chytuno ar y diweddariad blynyddol a ddarperir yn yr adroddiad hwn.

55 Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif - Cynigion i Wella'r Ddarpariaeth Addysg yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn y Forwyn

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Dros Dro ar faterion Ysgolion yr 21ain Ganrif a Materion Trawsnewid yr adroddiad, sy'n ceisio cymeradwyaeth y Cabinet i gychwyn yr ymgynghoriad statudol perthnasol a gofynnol ar gyfer y cynnig i gynnal newid rheoledig yn Ysgol Gynradd Gymraeg Llyn-y-Forwyn

("YGG Llyn-y-Forwyn"), a hynny drwy symud yr ysgol i adeilad newydd ar safle newydd.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod YGG Llyn-y-Forwyn yn un o adeiladau tlotaf y Cyngor, gyda graddfa cyflwr adeilad 'D' ac ôl-gostau cynnal a chadw o fwy na £1.01 miliwn. Esboniwyd bod yr adeilad ddim yn hygyrch ac, o ganlyniad i hynny, ddim yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010. At hynny, roedd y cyfleoedd ar gyfer chwarae yn yr awyr agored yn gyfyngedig, heb unrhyw fannau gwyrdd allanol ar gael a'r holl fannau chwarae caled yn cael eu heffeithio gan raddfa naturiol y tir.

Er mwyn mynd i'r afael â'r materion, cynigiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y dylid creu ysgol gynradd Gymraeg newydd ar safle newydd, gyda buddsoddiad oddeutu £8.5 miliwn er mwyn gwella ac ehangu'r cyfleusterau. Byddai'r buddsoddiad yn cynnwys:

- amgylcheddau dysgu modern a hyblyg i'r holl ddisgyblion, neuadd/ardal giniawa, ardal adnoddau dysgu amlbwrpas;
- cyfleusterau mewnol ac allanol hygyrch at ddefnydd y gymuned ehangach;
- manau awyr agored gwell i gefnogi'r ystod lawn o weithgareddau'r cwricwlwm, gan gynnwys ystafell ddosbarth awyr agored ac ardal 'ysgolion coedwig';
- dulliau rheoli traffig gwell, gan gynnwys man gollwng disgyblion sy'n teithio ar fysiau i'r safle a maes parcio i'r staff.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth na fyddai dalgylch YGG Llyn-y-Forwyn yn cael ei newid ac y byddai'r cynnig yn creu capasiti cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn ardal Cwm Rhondda Fach yn Rhondda Cynon Taf. Ymhellach, eglurwyd bod 65% o'r disgyblion sy'n mynychu YGG Llyn-y-Forwyn yn defnyddio Cludiant Cartref i'r Ysgol, a bod diffyg cyfleusterau gollwng disgyblion ar y safle presennol, gyda cherbydau'n defnyddio'r strydoedd cyfagos ar gyfer gollwng a chasglu ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Clywodd yr Aelodau y byddai gan safle newydd yr ysgol gyfleusterau gollwng a chasglu pwrpasol ar y safle, gan wneud y broses yn fwy diogel, yn llai aflonyddgar i'r gymuned, ac yn fwy hylaw i staff yr ysgol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, yn dilyn arfarniad safle o 11 ardal, pob un wedi'i leoli yn Rhondda Fach, y cynigiwyd codi adeilad newydd yr ysgol ar ochr ogleddol Crib-y-ddôl, Glynrhedynog, CF43 4AD, ardal a gaiff ei hadnabod yn lleol fel hen Ffatri Chubb.

I gloi, dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth, pe bai'r Cabinet yn cytuno, y byddai ymgynghoriad mewn perthynas â'r mater yn rhedeg o 1 Mawrth 2021 i 30 Ebrill 2021.

Canmolodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant yr adroddiad, gan nodi, pe bai'n cael ei gymeradwyo, y byddai un o'r adeiladau tlotaf yn y portffolio addysg yn cael ei ddisodli gan amgylchedd dysgu newydd a modern ar gyfer disgyblion, sydd â chapasiti ychwanegol i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg.

Gyda chaniatâd y Cadeirydd, siaradodd Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S Morgans a J Harries am yr eitem yma.

Nododd yr Arweinydd sylwadau a wnaed mewn perthynas â goblygiadau

priffyrdd a dywedodd y byddai Aseiad Effaith Trafnidiaeth llawn yn cael ei gynnal, ac y byddai unrhyw lwybrau cerdded diogel yn cael eu datblygu yn rhan o'r datblygiad. Sicrhodd yr Arweinydd yr Aelodau Lleol y bydd y Cyngor yn ymgynghori â nhw yn rhan o'r broses yma.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Menter, Datblygu, a Thai yr adroddiad a'r safle newydd arfaethedig ar gyfer yr ysgol. Siaradodd yr Aelod o'r Cabinet am y caniatâd Cynllunio sydd eisoes wedi'i roi ar gyfer y safle ar gyfer cymysgedd o unedau preswyl a diwydiannol, a holodd sut y gellid goresgyn hyn. Dywedodd y Cyfarwyddwr - Materion Ffyniant a Datblygu ei fod yn gweithio'n agos gyda chydweithwyr yn adran Eiddo'r Cyngor i drafod y sefyllfa gyfredol o ran cynllunio. Dywedodd y Cyfarwyddwr y byddai'r dystiolaeth a gasglwyd ar gyfer galw diwydiannol a masnachol yn yr ardal yn bwydo i'r Cynllun Datblygu Lleol, a bod potensial i gynnwys y safle fel safle posibl ar gyfer addysg.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi cynnwys yr adroddiad;
2. Rhoi cymeradwyaeth ffurfiol i'r gwaith o ddechrau ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol ar y cynnig i symud YGG Llyn-y-Forwyn i adeilad newydd ar safle newydd, a chadw dalgylch presennol yr ysgol;
3. Nodi y bydd unrhyw gynnig, pe bai'n cael ei gymeradwyo ar ôl cwblhau'r prosesau statudol gofynnol, yn cael ei weithredu erbyn Mawrth 2024;
4. Rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Chynhwysiant i wneud unrhyw fân newidiadau sy'n ofynnol i'r ddogfen ymgynghori arfaethedig (sydd ynghlwm yn Atodiad B i'r adroddiad) cyn ei chyhoeddi a dechrau'r ymgynghoriad.

56 Cyllideb Refeniw'r Cyngor ar gyfer 2020/21

Rhoddodd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyllid a Digidol wybodaeth i'r Cabinet am setliad llywodraeth leol 2021/2022 a chanlyniadau cam 1 o ymgynghoriad y gyllideb, i gynorthwyo gyda'i drafodaethau wrth lunio'r strategaeth cyllideb refeniw ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, y bydd yn ei hargymell i'r Cyngor i'w chymeradwyo.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr y Cabinet at y papur trafod a baratowyd gan Uwch Arweinwyr y Cyngor mewn ymateb i setliad llywodraeth leol 2021/22, a oedd ynghlwm yn Atodiad A i'r adroddiad.

Adroddodd y Cyfarwyddwr mai cyfanswm cyfredol Balansau Cronfa Gyffredinol y Cyngor ar hyn o bryd yw £8.709 miliwn a dywedodd ei fod yn parhau i fod o'r farn y dylai'r Cyngor ddal o leiaf £10 miliwn fel Balansau'r Gronfa Gyffredinol. Nododd y Cyfarwyddwr fod y cronfeydd wrth gefn wedi'u defnyddio i helpu preswylwyr a busnesau ar ôl Storm Dennis, sef y pwrpas priodol, yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf; ac roedd yn fodlon bod cynlluniau wedi'u rhoi ar waith i ailgyflenwi Cronfeydd Wrth Gefn y Gronfa Gyffredinol i'r lefel isafswm dros gyfnod ein Cynllun Ariannol Tymor Canolig (£0.5 miliwn y flwyddyn am y 3 blynedd nesaf). Aeth y Cyfarwyddwr ymlaen i siarad am Gronfa Ariannu Pontio'r Cyngor, sy'n £4.330 miliwn ar hyn o bryd, ac sydd, ers blynyddoedd lawer, wedi'i ddefnyddio'n synhwyrol fel rhan o'r strategaeth gyllideb gytbwys.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr y Cabinet at Adran 3 yr adroddiad a rhoi gwybod i'r Aelodau am bwyntiau allweddol Setliad Llywodraeth Leol 2021/22 Dros Dro, a gyhoeddwyd ar 22 Rhagfyr 2020.

O ran gosod lefel Treth y Cyngor, soniodd y Cyfarwyddwr am dargedu cyllid digonol tuag at ddarparu gwasanaethau allweddol ac, ar yr un pryd, sicrhau bod swm Treth y Cyngor a godir y flwyddyn nesaf yn rhesymol ac y gellir ei chyfiawnhau i breswylwyr. Nododd yr Aelodau mai'r cynnig gwreiddiol a gafodd ei fodelu oedd cynyddu Treth y Cyngor yn 2020/21 o 2.85%, ond cynigiwyd y dylid cynyddu Treth y Cyngor o 2.65% yn lle hynny. Byddai hyn yn cynyddu'r bwlch cyllidebol sy'n weddill o £182,000.

O ran y Gyllideb Ysgolion, cynigiodd y Cyfarwyddwr gynnydd o £2.2 miliwn o £161.6 miliwn i £163.8 miliwn er mwyn cwmpasu yr holl bwysau chwyddiant a nifer y disgyblion yn llawn, gan gynnwys costau uwch Ardrethi Annomestig.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr fanylion y cynigion a canlynol y manylir arnynt yn Adran 9 yr adroddiad, a fyddai'n ceisio amddiffyn gwasanaethau rheng flaen a blaenoriaethu neu ailddyrrannu adnoddau i feysydd blaenoriaeth:

- Cynllun rhyddhad lleol - Ardrethi Annomestig
- Costau parcio
- Newid yn yr Hinsawdd a Lleihau Carbon
- Graddedigion
- Cefnogi lles.
- Ffioedd a chostau
- Gwasanaethau Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd - Adnoddau Ychwanegol
- Cymorth Atal Llifogydd
- Carfan Torri Gordyfiant

Aeth y Cyfarwyddwr ymlaen i roi gwybod i'r Cabinet am adborth o Gam 1 y broses ymgynghori, a oedd yn ceisio barn y Pwyllgor Craffu - Cyllid a Chyflawniad, y Fforwm Cyllideb Ysgolion, preswylwyr a rhanddeiliaid. I gloi, dywedodd wrth y Cabinet, yn dilyn cymeradwyo'r cynigion ger eu bron, byddai Cam 2 yr ymgynghoriad yn cychwyn ar unwaith. Byddai'r Strategaeth Gyllideb ddrafft yn cael ei chyflwyno i'r Cabinet i'w chymeradwyo ar 25 Chwefror 2021 ac yna i'r Cyngor i'w gadarnhau ar 10 Mawrth 2021.

Manteisiodd yr Arweinydd ar y cyfle i ddiolch i'r Uwch Arweinwyr, swyddogion cyllid a rheolwyr gwasanaeth am yr adroddiad trylwyr ac am gyllideb heb unrhyw doriadau, a'r cynnydd isaf, o bosibl, yn Nhreth y Cyngor yng Nghymru. Gan gyfeirio at adborth ymgynghoriad Cam 1, dywedodd yr Arweinydd y bu cefnogaeth sylweddol gan breswylwyr o ran y blaenoriaethau buddsoddi a bod 77% wedi cefnogi'r cynnydd arfaethedig o 2.85% yn Nhreth y Cyngor.

Siaradodd yr Arweinydd am y blaenoriaethau buddsoddi amrywiol y manylwyd arnynt nhw yn yr adroddiad ar gyfer meysydd allweddol fel iechyd y cyhoedd, lles a chymorth atal llifogydd, ynghyd â'r rhewi arfaethedig ar daliadau ar Hamdden am Oes, ffioedd parcio, Ffioedd Chwarae Haf a Gaeaf, prydau ysgol, ffioedd profedigaeth, yn ogystal â'r Lido a Pharc Treftadaeth Cwm Rhondda.

Canmolodd y Dirprwy Arweinydd swyddogion am yr adroddiad cadarnhaol a chydabu fod arbedion effeithlonrwydd yn dod yn anos flwyddyn ar ôl blwyddyn, yn enwedig o ystyried effaith pandemig Covid-19 a Storm Dennis.

Cytunodd yr Aelod o'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Corfforaethol gyda'r Cyfarwyddwr ei bod wedi bod yn hanfodol defnyddio cyfran o Gronfeydd Wrth Gefn y Gronfa Gyffredinol, ac roedd yn falch o nodi bod cynllun i'w ailgyflenwi dros y tair blynedd nesaf. Cytunodd yr Aelod o'r Cabinet hefyd â'r defnydd parhaus a synhwyrol o Gronfa Wrth Gefn Pontio'r Cyngor, a themlai ei fod yn ategu gwaith caled pob adran wrth wneud arbedion effeithlonrwydd.

Croesawodd yr Aelod o'r Cabinet ar faterion Cymunedau Cadarn, Llesiant a Gwasanaethau Diwylliannol y buddsoddiad ychwanegol sydd wedi'i gynnwys yn y gyllideb arfaethedig mewn perthynas â Newid Hinsawdd a Lleihau Carbon, a oedd yn dystiolaeth o ymrwymiad y Cyngor i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd a dod yn Awdurdod carbon niwtral erbyn 2030.

PENDERFYNODD y Cabinet:

1. Nodi bod y gweithdrefnau sy'n ymwneud ag adeiladu cyllideb refeniw, y broses ymgynghori cyllideb, ac adrodd i'r Cyngor, wedi'u nodi yn "Y Gyllideb a'r Fframwaith Polisi", sy'n cael ei gynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor;
2. Nodi ac ystyried canlyniadau proses cam 1 o ymgynghori ar y gyllideb;
3. Strategaeth Gyllideb Refeniw ddrafft 2021/22, y manylir arni yn y Papur Trafod ynghlwm 'Atodiad A', fel sail ar gyfer ail gam yr ymgynghoriad;
4. Yr amserlen ddrafft ar gyfer pennu cyllideb refeniw 2021/22, sydd wedi'i nodi yn Atodiad A2;
5. Derbyn adborth o ail gam yr ymgynghoriad cyllideb er mwyn trafod a phenderfynu ar y strategaeth gyllidebol derfynol i'w chyflwyno i'r Cyngor;
6. Bod y Cyngor yn parhau i gefnogi'r strategaeth ariannol tymor canolig gyda'r nod o sicrhau'r effeithlonrwydd parhaus o ran darparu gwasanaethau, trawsnewid gwasanaethau wedi'u targedu a newidiadau eraill sy'n cynnal uniondeb ariannol y Cyngor wrth barhau i anelu cymaint â phosibl i ddiogelu swyddi a gwasanaethau allweddol.

57 Cynllun Dirprwyo'r Arweinydd - 3A

PENDERFYNWYD Cynllun Dirprwyo diwygiedig yr Arweinydd yn dilyn newidiadau diweddar i Garfan yr Uwch Arweinwyr.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.25 am

**Cllr A Morgan
Cadeirydd.**